

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 10 Medi 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd D Williams    Y Cyngorydd T Williams  
Y Cyngorydd W Lewis    Y Cyngorydd S Morgans  
Y Cyngorydd P Howe    Y Cyngorydd L Jones

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd  
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd  
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

**20      Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Fox, S. Bradwick, E. Webster, A. Cox and S. Powderhill.

**21      Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**22      Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

**23      Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 29.07.19 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

**24 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 15.07.19 - 25.08.19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 15 Gorffennaf 2019 i 25 Awst 2019 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**25 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**26 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 21.07.19 - 30.08.19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 21 Gorffennaf 2019 i 30 Awst 2019.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**27 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 15.07.19 - 25.08.19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 15 Gorffennaf 2019 i 25 Awst 2019.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 pm**

**Y Cynghorydd D. Williams  
Cadeirydd.**